

Dyddiadur Rhyfel Capten Mervyn Crawshay

Sadwrn 15 Awst 1914

(Gadael y Pinwydd cyn iddi wawrio). Mae hi'n arllwys y glaw. Aethon ni i gyd i wersyll gorffwys yn Southampton tra bod y glaw'n syrthio. Aeth un o swyddogion y Sgwadron i mewn i'r dre i gael cinio, a buon ni bron â'i anghofio. Diwrnod hir ac undonog o'n blaenau.

Sul 16 Awst 1914

Ychydig o heddwch ar fwrdd y llong. Cyrraedd ar ôl cinio. Cawson ni drafferthion mawr yn gadael y llong oherwydd cafodd yr holl ffitiadau eu hadeiladau mewn 3 diwrnod. Fy sgwadron i yw'r olaf i adael. Cysgon ni ar fêls gwair mewn sied cotwm enfawr.

Llun 17 Awst 1914

Gorymdaith ar hyd y llwybr, ymarfer gyda chleddyfau. Aethon ni i Havre i wleda mewn bwyty mawr. Roedd yr holl le'n llawn "entente cordial". Gorffennon ni ddim tan yr oriau mân.

Mawrth 19 Awst 1914

Ar y trê'n drwy'r dydd gan stopio am ychydig funudau mewn llefydd amrywiol i gasglu dŵr. Roedd pobl yn rhoi ffrwythau a chardiau post i ni yr holl ffordd i fyny. Cyrraedd yn Hautmont ar ôl iddi nosi cyn symud i gae gwlyb iawn yn llawn glaswellt hir, lle gorweddon ni.

Mercher 19 Awst 1914

Bant i Colleret. Pentref Belgaidd-Ffrenig iawn. Aethon ni i'r biledau. Ar y cyfan rydyn ni'n fodlon ein byd yn gofalu am y ceffylau ar ôl y daith. Buon ni'n marchogaeth gyda Johnson, y dehonglydd, ac eraill dros ffin Gwlad Belg, ac fe welsom ni dir y gelyn.

Iau 20 Awst 1914

Ychydig o ymarfer corff i'r Sgwadron yng nghefn gwlad. Mae'r lle'n chwarae triciau arna'i. Mae'n edrych fel tir rhwydd i'w groesi, ond fe gymeron ni awr i deithio un filltir. Yn ôl i'r biledau i gael bwyd.

Gwener 21 Awst 1914

Gorymdeithio i Wlad Belg ar hyd llwybr coblog. Wrth i ni fynd i'r biledau, daethom ar draws lu mawr o Almaenwyr. Roedd y Sgwadron ar ei hôl hi; a dechreuodd pethau droi'n sur. Ni ddaeth unrhyw beth ohono. Teithion ni i Villiers St. Ghislain. Aeth Ansell â holl arweinwyr y Sgwadron o amgylch yr holl amddiffynfeydd.

Sadwrn 22 Awst 1914

Treulio'r bore'n cloddio fy narn i o dir. Daliais annwyd yn y berllan oer. Lwyddon ni i ddal rhai milwyr ffo a'u cwestiynu. Daeth newyddion o'r 3edd Frigâd fod yr Almaenwyr yn dod. Aeth y Sgwadron i'r coed ac aros yno drwy'r dydd. Gwelon ni'r Almaenwyr ar y gorwel. Glaniodd un bom o fewn 300 llath i ni. Bomiwyd pedwar Hwsâr. Dechreuodd y rhyfel pan daniodd y llwydion ddrylliau peiriannol.

Cafodd cylchwylwyr eu dal yn y coed gan farchogion y ceffylau gwinau. Am 4 y bore, symudon ni i'r llwybr coblog.

Gorymdeithion ni gyda'r nos dros y llwybr drwy Mons, lle roedd miloedd o bobl yn gweddi. Yn y pen draw, cyrhaeddod ni bentref lle cysgon ni mewn biledau ar fferm.

Sul 23 Awst 1914

Gorymdeithion ni ar fyr rybudd i'r rheilffordd i'r Dwyrain o Gr., gyda'r marchogion i gadw golwg ar y ffosydd gyda'r nos.

Gorffwys drwy'r dydd. Dechreuodd y sifiliaid ein helpu yn y pendraw.

Llun 24 Awst 1914

Parhau i balu ffosydd wrth iddi wawrio.

Mae bwlch wedi'i adael ar ochr dde fy ystlys. Soniais am hyn wrth Briggs. Dywedodd nad yw'r tir hwn yn ei adran ef.

Wrth gwrs, ymddangosodd yr Almaenwyr gyferbyn â'r pwynt hwn o wendid. Mae'n amhosibl dweud ai cyfaill neu elyn sydd o'm mlaen i nes bod ergyd yn cael ei thanio. Yna bydd yr ail filwr yn tanio. Ar ôl i ni eu gweld yn eu helmedau llwyd pigog, troeon ni i'r chwith tuag at y pentref. Cyn hir roedd y pentref yng ngafael y fflamau. Cilion ni. Aeth llawer o'r dynion i mewn i'r ffosydd i symud at ffatri fawr, gan gynnwys Allenby. Roedd y bomiau'n dechrau syrthio'n agos aton ni, felly dilynodd ni'r Sgwadron gan ymuno ag Ansell yn Elonges.

Tua 2pm cawsom ein galw'n ôl, gan deithio i lawr bryn a thrwy'r pentref. Ar yr ochr arall aeth pethau'n flêr. Roedd bwledi'n cael eu tanio o bob cyfeiriad. Ar ôl ymladd ffyrnig, ymddeolod ni i'r fferm. Roedd llawer wedi'u hanafu.

Arhosodd y rhengoedd ôl gyda'r adran wrth deithio drwy'r pentref, ond nid ymosododd yr Almaenwyr.

Cilion ni i Genlain.

Mawrth 25 Awst 1914

Dechrau am 5am. Roedden ni i'r chwith o Rengoedd Ôl y fyddin. Roedd y ceffylau gwinau i'r dde ohonon ni. Cefais fy anfon i Artres. Cyrhaeddais frig y cribyn yn ddiogel. Roedd 2 filwr yn casglu dŵr pan ymddangosodd Almaenwyr (2 fagnelfa ac 1 gatrawd o Jaegers) tua chanllath i ffwrdd. Rhedon ni i mewn i chwarel. Ymosodwyd arnon ni'n ffyrnig, ond cawsom ein diogelu gan y chwarel. Llwyddod ni i ddychwelyd i'r gatrawd. Dihangfa lwcus.

Ar ôl cyrraedd yn ôl, ymunod ni â'r Rhengoedd Ôl.

Llwyddodd Ansell i ddal ei dir, gydag adran o ddrylliau, am amser hir i arbed y Groes Goch. Roedd bomiau'n syrthio o'n cwmpas. Gadawon ni Wlan neu ddau yn y fferm. Cafodd milwyr Ffrengig eu dal yn Valenciennes. Camon ni i'r adwy.

Cawsom ein rhoi yn ffosydd y troedfilwyr cyn cael ein tynnu allan gan Allenby. Gyda'r nos, cilion ni i dref ger melin. Bu'n rhaid symud ar fyr rybudd – roedd y dref wedi'i hamgylchynu. Yn y diwedd cyrhaeddod ni ffordd ger Beaumont. Oer a gwlyb iawn.

Mercher 26 Awst 1914

Cysgon ni wrth ein ceffylau ar y llwybr coblog. Symudon ni gyda'r wawr i ymuno ag Adran yn Clary i gynorthwyo'r 4edd Adran a oedd mewn ffosydd ar dir uchel i'r de o Le Cateau-Cambrai. Cawsom fwyd gan y troedfilwyr - roedden ni'n llwgu. Mae'r frwydr yn rhuo gydol y dydd gyda gynnau'n tanio'n ddi-ben-draw. Llwyddodd y drylliau peiriannol i wrthsefyll ymosodiad cyntaf yr Almaenwyr, ond cafodd ein byddin

ei gwthio'n ôl yn ddiweddarach. Roedd Adran y Marchfilwyr yn llonydd, yn amddiffyn ystlys y 4edd Adran. Llwyddon ni i adael heb neb yn ein dilyn. Cafodd y Gatrawd ei thorri i fyny'n hwyr yn y nos mewn pentref. Gwelais i gyrff meirw'r troedfilwyr ymhobman, a sylwais ar wir ystyr ymddeoliad strategol. Cyrhaeddais fwthyn bach lle cefais wely a brandi gan fenyw fach garedig.

Iau 27 Awst 1914

Gorymdaith gynnar i ymuno ag Ansell mewn pant a oedd ger pentref. Roedd gweld y milwyr traed yn cilio'n olygfa a hanner. Roedd y dynion yn hanner marw, ond roedden nhw'n barod i ymladd eto.

Fe ymunon ni ag Adran yn Roussoy, lle cysyllton ni â Brigâd o Ddragwniaid Ffrengig. Cafodd y gatrawd ei rhoi mewn trefn ar ben bryn. Ymunais i â 3 Hwsâr.

Glaniodd sawl bom yn agos iawn. Cafodd fy nhrwyn ei daro gan sblint.

Ni oedd y sgwadron olaf i ymddeol, ac roedden ni mewn trwbl. Roedd Carabinwyr wedi'u lladd yn y coed y tu ôl i ni, felly symudon ni i rywle arall. Ar ôl taith hir, cyrhaeddon ni yn Peronne. Daeth awyren â neges am Almaenwyr. Fe glirion ni allan, cyn mynd ar orymdaith gofiadwy gyda'r nos. Roedd dynion yn disgyn drwy flinder. Cawson ni ein gwahanu, a chiliodd y gatrawd i ffordd yn Bethuncourt. Fe welon ni gerbyd a oedd yn edrych fel chwilolau Almaenig.

Teithiais i, Johnson ac Archie ar gefn yr un ceffyl.

Am bum noson yn olynol ni chafodd y gatrawd fwy na 2 awr o gwsg.

28 Awst 1914

Wrth iddi wawrio edrychais ar fap a gweld y byddai'r Almaenwyr yn siŵr o gyrraedd ymhen tipyn; roedd pawb yn cysgu, gan gynnwys Ansell, Balfour a'r staff.

Cefais orchymyn i ffurfio ôl-fyddin ar bont gyda'r Milwyr 1^{af}. Syrthiais i gysgu cyn deffro i ddatganiad bod y gelyn yn nesáu. Roedd pethau'n edrych yn ddrwg. Roedd colofn arall (marchfilwyr) i'r dde ohonon ni. Fel mae'n digwydd, adran Sordit oedd y rhain yn dod i'n helpu ni.

Llwyddon nhw i wthio'r Almaenwyr yn ôl.

Ymddeolon ni i Néry, lle daethon ni o hyd i fwyd ar ochr y ffordd, cyn symud ymlaen i Cressy.

Cawsom ein gorchymyn i ddychwelyd yn ôl i'r Gogledd. Casglon ni ddŵr mewn cae heddychlon a chodi gwersyll dros dro ger tref.

Buon ni'n prynu pethau a chael bwyd mewn gwesty. Roedd pawb mewn hwyliau llawer gwell.

Roedden ni'n byw drwy atafael ac ewyllys.

Roedd sifiliaid yn ffoi yn blocio'r ffyrdd yr holl ffordd gyda cherti, beiciau ac ati.

Sadwrn 29 Awst 1914

Roedden ni'n disgwyl diwrnod tawel, ond am 8am clywsom ni gwmni o Droedfilwyr Almaenig ger yr afon yn Bethancourt.

Cymeron ni'r cyfrwy a symud y Sgwadron i bont Ossoy.

Am 12 cawsom ein gorchymyn i ymgasglu yn Honfleur.

Cefais fy ngorchymyn i ddychwelyd ar unwaith, ond cafodd cylchwyllwyr Archie a Patterson ac Oswald eu gadael allan ar y maes.

Symudodd y Sgwadron i leoliad ger Leslie i'w helpu i ddychwelyd.

Roedd yr Almaenwyr o fewn ychydig gannoedd o lathenni, yn bomio Leslie, cyn stopio am ginio. Llwyddodd fy nghylchwyllwyr i gyrraedd yn ôl o drwch blewyn.

Ymdeolon ni drwy Cressy a Lagny i Plessis cyn biledu mewn ystafell biliards mewn tafarn fach. Cawson ni gyfle i olchi yno.

Sul 30 Awst 1914

Taith gerdded hir ar fore crasboeth. Casglon ni ddŵr ger camlas, lle ffeindion ni fotel o win gwyn.

Cyrhaeddod ni yn Choisy au Bac ar Afon Oise. Dyma'r biledau gorau rydyn ni wedi eu cael hyd yma, mewn cartref artist.

Rwy'n disgwyl gorffwys yma.

Mwynheais nofio yn yr afon.

Llun 31 Awst 1914

Gorymdaith hir yng ngwres llethol yr haul. Roedd gwin yn cael ei roi i ni yr holl ffordd. Casglon ni ddŵr o'r afon yn Verb, a gwelsom ni'r tirailleurs Ffrengig o Nice.

Ar ôl teithio i fyny bryn serth, cyrhaeddod ni yn Néry. Rydw i'n rhan o sgwadron y rhagfintai ar yr ochr dde. Cawsom ni fara yn nhŷ gwerinwr a chinio mewn ystafell biliards.

Ystyriais gysgu mewn mynwent, ond penderfynais beidio. Syrthiais i gysgu yn pendroni am faint fyddai'n cysgu yn y fynwent hon yfory.

1 Medi 1914

Roeddwn wedi gosod fy holl drugareddau allan, gan gynnwys fy nghôt law ac ati, ac roddem ar fin bwyta brecwast pan ddaeth sarsiant i ddweud bod un o batrolau'r 11^{eg} Hwsariaid wedi gweld llu mawr o'r gelyn yn agos. Rhoddais orchymyn i'r dynion wisgo amdanynt, ac roeddem yn aros ger ein ceffylau yn aros am orchymyn gan Ansell i fynd ar gefn ein ceffylau. Roedd yn y pentref yn cael brecwast.

Yn syth wedyn dechreuodd cawod drom o ffrwydron a bwledi syrthio ar y gweryll. Aethom oddi yno ar garlam gan golli dynion, ceffylau ac offer. Adfyddinwyd y sgwadron mewn pant gyda Sgwadron B. Roeddem yn disgwyl mynd ar gyrch, felly taflais fy holl offer diangen ymaith, heb ei weld eto.

Ymosodwyd ar ystlys y gelyn mewn niwl trwchus i fyny bryn serth, gyda'r holl gyfrwyau yn llithro yn ôl.

Daeth sgwadron B oddi ar eu ceffylau, tra bod sgwadron A wedi mynd tuag at fferm. Yn sydyn, dim ond 80 llath i ffwrdd, gwelais linell danio drwy'r niwl.

Adfyddinwyd y tu ôl i das wair, gyda dau farchoglu. Ymosododd Sarsiant Largford ar eu ceffylau blaen, gan ladd 16 o farchfilwyr a nifer o filwyr traed.

Roeddwn am ymosod ddwywaith gyda'r marchoglu, nid oedd Ansell yn caniatáu i mi wneud hynny, yna galwodd arnaf i ddod allan ar gefn fy ngheffyl i gael golwg ar y sefyllfa.

Nid oeddem wedi mynd mwy na hyd 3 march i mewn i gawod o fwledi pan gafodd ei daro, roeddwn yn gallu gweld yn glir. Trodd ei geffyl o amgylch y gornel, a syrthiodd yntau mewn coedwig fechan. Nid oedd amser gennyf i'w helpu, gadawyd 2 ddyn ar ôl, gydag un yn parhau i danio.

Gyrrwyd y gelyn ar ffo, lladdwyd un swyddog a naw o ddynion yn agos at ei gilydd, gan ladd eraill ymhellach i ffwrdd hefyd. Ymosodwyd ar eu llu cynorthwyol am 10am. Daeth y gorchymyn i ymgilio wrth i'r ffrwydron ddechrau glanio gerllaw.

Collodd Head nifer o ddynion wrth ymgilio, gan gynnwys y llanc Hill.

Aethom i lawr i'r pentref i weld pwy a laddwyd, rhoi trefn ar y ceffylau clwyfedig ac ati.

Yna ymlaen i Néry, roedd fy holl eiddo wedi'i ysbeilio ac roedd y lle'n annibendod llwyr. Llwyddodd Magnelfa L i achub y gynnuau, er lladdwyd llawer o'r dynion. Roedd ceffylau'n gorwedd mewn rhesi, ac roedd dynion, offer ac ati wedi'u malurio. Cipiwyd 10 o gynnuau'r Almaenwyr, yn bennaf drwy danio gynnuau peiriannol. Yn raddol symudom yn ôl i bentref.

Dydd Mercher 2 Medi 1914

Ymdeithiwyd gyda'r wawr drwy Goedwig Ermenonville, gan fynd yn betrus iawn drwy'r llystyfiant trwchus.

Roedd hi'n amlwg bod yr Almaenwyr wedi mynd drwy'r goedwig ar garlam, roedd ceffylau, cotiau ac ati blith draphlith.

Rhodddwyd dŵr i'r ceffylau mewn pant, yna aeth y sgwadron i felin wynt i gynorthwyo'r 11^{eg} Hwsariaid yn erbyn dau farchoglu o Wlaniaid, ond ni fu brwydr yno.

Roedd Sgwadron A yn amddiffyn cefn y llu. Cysgais mewn gardd plasty ar gaeadau pren gwyrdd, cafwyd blancedi a brandi o'r fferm fawr, a ffowls hefyd.

Dydd Iau 3 Medi 1914

Symudwyd yn ôl tua'r de gyda'r wawr. Ymdaith hir mewn tywydd poeth, gyda Sgwadron A yn amddiffyn ystlys y Frigâd.

Rhodddwyd dŵr i'r ceffylau mewn camlas ger coedwig am yna ymlaen tuag at Baris. Rwy'n dechrau meddwl mai celwydd yw'r holl sôn am ymgilio strategol.

Cefais gwrw wrth fynd drwy pentref.

Marchogais geffyl Ansell, Napper Tandy, ceffyl garw ac anghyfforddus ydyw.

Cyrhaeddais drwy gae mawr halogedig yng ngolau'r haul. Roedd yr Adran gyfan yno. Roedd si ar led ein bod am daflu popeth o'r wagenni a symud ar unwaith. Nid oedd hynny'n wir, ac ymdrochais yn llif cyflym afon Savonne gyda Winnie.

Bwytasom ein pryd o fwyd catrodol ein hunain, oll gyda'n gilydd yn y tywyllwch, gan ddefnyddio ein bysedd i rwygo'r bwyd.

Mae'r holl weision traed ac ati ar goll.

Dydd Gwener 4 Medi 1914

Diwrnod o orffwys o'r diwedd, ond mae'r gwersyll yn drewi ac yn llawn clêr. Mae fy llety i ger aradr. Rwy'n ceisio anfon telegram at V, ond nid yw hynny'n bosibl.

Ymdrochais yn afon Marne ar ôl cael cwsg fach.

Dydd Sadwrn 5 Medi 1914

Ymdeithiwyd heibio i Chennevieres, Boissy St Ledger, a Perigny i Moissy Cramage.

Gosodwyd llinellau am 2pm, dwy awr yn ddiweddarach aethom gyda gweddill y Frigâd drwy Verneuil i Aub Pierre lle nad oedd unrhyw ddŵr ar gael. Ymdaith hir o 40 milltir, diflannodd yr holl filwyr traed. Aros mewn plasty am ychydig oriau. Tywydd poeth.

Aethom i Luigny, sef y man pellaf i'r de a therfyn eithaf yr ymgiliad.

Nawr rydym yn dechrau symud ymlaen.

Dydd Sul 6 Medi 1914

Ymdeithiwyd am 6.30am i'r gogledd-ddwyrain gyda'r nod o ymosod.

Roedd yr Almaenwyr wedi mynd heibio i Baris ac i'r de-ddwyrain i ymosod ar ystlys chwith byddin Ffrainc, ac rydym yn mynd tua'r gogledd-ddwyrain i ymosod ar ystlys dde yr Almaenwyr.

Ar ôl gorffwys, symud ymlaen un filltir, ac yna aros eto am nifer o oriau. Mynd i'n llety am 7pm, rhywfaint o ddryswch, y Frigâd 1^{af} yn y pentref a Brigâd arall yn mynd i lety arall yn bellach ymlaen.

Dydd Llun 7 Medi 1914

Gadael y llety am 5.30am.

Cyhoeddodd Syr John French orchymyn yn nodi bod Byddin Prydain wedi bod yn cael amser caled, ond ei bod nawr am gydweithredu â Byddin Ffrainc.

Roedd y gelyn yn ymgilio, dan bwysau dwy Frigâd o farchfilwyr. Roedd dŵr mewn tyllau yn y ddaear.

Daeth aelod o'r 9^{fed} Gwaywyr gyda gwayw doredig yn sôn am gyrch 2 farchoglu yn erbyn 1 ½ sgwadron o Wlaniaid a sut y bu iddo drywanu 3 ohonynt. Soniodd hefyd am danio llwyddiannus y 18^{fed} Hwsariaid.

Aethom heibio i Almaenwyr clwyfedig, carcharorion rhyfel ac ambell gelain yn y strydoedd. Roedd Choisy'n llanast llwyr, wedi'i hysbeilio gan yr Almaenwyr.

Dydd Mawrth 8 Medi 1914

Wedi ymdeithio cyn y wawr am 2.30am. Mae A yn arwain y sgwadron. Aethom heibio i fyddin Ffrainc yn y dref. Roedd Tiger yn y marchoglu blaen.

Mae Wlaniaid gerllaw ond nid oes sicrwydd ai Saeson ydynt, tan i rywun danio at Sgwadron C o'r pentref.

Yna ar y cefn uwchben Sablonieres gwelais Frigâd yr Almaenwyr a rhoddais wybod amdani i'r Uwch Swyddogion, ond tybiwyd mai gwan oedd amddiffyniad y pentref a gorchmynnwyd i mi ei chipio.

Yna daeth dyn o sgwadron B i mewn gan ddweud mai ef oedd yr unig un yn weddill o farchoglu Joe Nettlefolds, a oedd wedi eu dal mewn cudd-ymosodiad.

Aethom i lawr i'r ffordd heb unrhyw golledion drwy ymochel, aethom ar hyd y ffordd gan ymosod ar yr Almaenwyr gyferbyn.

Lladdwyd Partridge a Norwood, ac anafwyd Martin a J. Nettlefold.

Aeth y marchoglu 1^{af} yn ei flaen.

Daeth sgwadron A o hyd i un gwn peiriannol a gynnu eraill yn y pentref, rydym yn symud ymlaen i gyrion Monvilliers.

Cefais sbectol a banner gan swyddog Almaenaidd clwyfedig.

Dechreuodd lawio'n drwm, euthum i fferm ar fryn a chefais ginio da yna.

Roedd hi'n arllwys y glaw.

Sgwadron A oedd y milwyr cyntaf i gyrraedd Monvilliers.

Dydd Mercher 9 Medi 1914

Dechrau ymdeithio am 2.30am.

Croesi afon Marne tua 10am.

Cafodd y milwyr ar y bryn eu bwrw gan ffrwydrion ein gynnu mawr ein hunain, ac nid oedd yn bosibl atal hynny.

Gwelsom ein marchfilwyr yn ymosod ar bentref, yna es i gyda'r Sgwadron i Etre Pilly. Cyfarfûm â Blackburn, a soniodd am 1000 o Almaenwyr o'm blaen. Confoi ydyw.

Dechreuodd ein gynnu mawr danio wrth i mi agosáu.

Cuddiais mewn pant, yna aeth Tiger i fan lle roedd yn gallu gweld croesffordd, roedd Almaenwyr o bob math yno ar feiciau ac mewn ceir. Ni wnaethom ymosod, gan mai casglu gwybodaeth oedd fy ngwaith i. Aeth Brook i ffwrdd ar ei ben ei hun. Ni ddychwelodd fyth. Cafodd y Corporal Kelly wybodaeth gan y Ffrancod a chefais fy achub.

Cyrhaeddais y llety yn y tywyllwch yn flinedig iawn, roeddwn wedi meddwl ein bod wedi colli'r ffordd. Y Sarsiant Christian arweiniodd y ffordd.
Ar ôl cyflwyno adroddiad i Briggs, cysgais yn y gwellt oer.

Dydd Iau 10 Medi 1914

Arweiniodd sgwadron A y sgwadron dros dir anodd. Torrodd Yellow Sally ei gwddf wrth groesi pont.

Roedd brwydr ger pentref, nid oedd yn bosibl gweld pwy oedd yr Almaenwyr a phwy oedd y Saeson.

Taniwyd atom o berth, ac aeth Gwaywyr Ffrengig ati i hela'r ddau garcharor Almaenaidd oddi yno.

Roedd cryn dipyn o ddryswch.

Daeth Watson, un o'r gynwyr, i ragchwilio gyda sgwadron A, a anfonwyd yn agos at ein milwyr traed.

Taniwyd ffrwydrion atom, anafwyd Watson yn ddifrifol.

Aeth y sgwadron yn ôl i'r Frigâd ar garlam, anafwyd dau o'r dynion, wyth o geffylau, gyda rhai o'r ceffylau wedi'u lladd.

Ar ôl cipio bryn, aeth X heibio i'r 11^{eg} Hwsariaid ger coeden wrth fynd i chwilio am Winwood. Glaniodd ffrwydrion o fewn 5 llath i mi ar y merlyn, gan glwyfo Lockett ymhlith eraill.

Cefais lety da yn y dyffryn, a chysgais mewn gwely.

Gwelodd X adran y Marchoglu Almaenaidd yn mynd yn araf ar draws y gwastatir 2 filltir i ffwrdd.

Nid oedd y gynwyr yn gallu cyrraedd mewn pryd.

Daeth cawod drom o ffrwydrion a bu'n rhaid i'n gynwyr adael y gynnau.

Dydd Gwener 11 Medi 1914

Ymdeithiwyd heibio i Oulchy, cyn troi i'r gogledd-ddwyrain.

Mae 8 corfflu ac un adran Almaenaidd yn gweithredu yma.

Cafodd y Ffrancod lwyddiant yma.

Dywedwyd bod byddin Lloegr wedi cipio 7 o gynnau mawr, llawer o gynnau peiriannol a 1000 o garcharorion. Eisteddais dan geuffos yn wlyb diferol, ac yna yn ôl i'r pentref yn frwnt, yn flêr ac yn oer.

Gwnaethom gynnau tân a chymryd gafr wen.

Aeth Pankhurst yn sâl gyda niwmonia, nid yw'n syndod i mi.

Dydd Sadwrn 12 Medi. 1914

Rydym yn symud ymlaen, ac yn dod ar draws y gelyn yn fuan.

Llwyddwyd i ddal gafael ar bentref Braine. Aeth sgwadron A i mewn i goedwig ar ochr dde'r ffordd, gan gyrraedd castell yn y pendraw, lle roedd cyfle i saethu o bell at gefn y milwyr traed Almaenaidd, a oedd hefyd yn wynebu cawod drom o ffrwydrion pryd bynnag yr oeddent yn ymddangos, gan syrthio i'r maip ar bob ochr.

Cyrhaeddodd Sgwadron A fferm o'r enw "La Saulx Sadree", ar hyd ffordd orchuddiedig. Tybiwyd bod yr Almaenwyr oll wedi mynd, pan gafwyd tanio sydyn, ac yn fuan wedyn ymddangosodd 45 o filwyr ac un swyddog ar y ffordd.

Saethodd y sgwadron o'r tu ôl i gât ar y ffordd, i lawr aeth yr Almaenwyr, gydag ond ambell ergyd yn ôl, gydag un ohonynt yn taro Sarsiant Christian.

Yna aethom i mewn i'r plasty eto, gan fynd i'r seler wrth i'n gynnau mawr danio uwchben.

Aeth 5 ohonom ymlaen gyda'r faner wen, a oedd yn beth byrbwyll i'w wneud. Roedd 20 o'r Almaenwyr yn ddianaf, 12 wedi'u lladd neu eu hanafu, ac roedd y swyddog ar fin marw.

Yn ffodus, roedd y milwyr dianaf y tu ôl i'r das wair yn ofnus iawn. Ar ôl i mi eu bygwth gyda chleddyf ac ar ôl i ni danio pistolau, gwnaethom eu trosglwyddo i'r milwyr traed, a gipiodd eu harfau.

Roedd hwn yn llwyddiant da i sgwadron A. Gwelais Allenby yn fuan ar ôl diwedd y sgarmes.

Aethom ar siwrnai seithug ar ôl rhai gynnu peiriannol yn y glaw. Roedd sôn ein bod ar fin ymosod gyda'r nos yng nghanol y mwd a'r glaw, ond ni ymosodwyd.

Brwydr Marne oedd hyn oll, o 6 Medi.

Cefais lety yn Dhuisel, gadewais fy helm yno. Arllwys y glaw, llety gwael, roedd y preswylwyr yn anfoesol, roedd yn rhaid i mi eu bygwth.

Gadewais fy helm gyda: Mons Mathieux de Guart, Dhuisel, Aisne.

Dydd Sul 13 Medi 1914

Euthum i fyny i'r lle yr oedd Catrawd Caerwrangon, yna'r tu ôl iddynt. Dechreuodd y gynnu mawr danio gerllaw, felly symudom. Croeswyd afon Aisne am y tro cyntaf. Gwelais y Swafiaid.

Roedd brwydr fawr yn mynd rhagddi, gyda channoedd o gynnu'n tanio.

Aeth y Frigâd allan i ganol maes y gad ddwywaith, ond bu'n rhaid ymgilio oherwydd y ffrwydron.

Rwy'n gyfrifol am gysylltu ag ymosodiadau'r Ffrancod, gan farchogaeth i lawr atynt yn y pentref ger Craonne, lle bu Napoleon yn brwydro ym 1814.

Roedd y Frigâd wedi symud yn sydyn, bu'n rhaid ymgilio, gyda llawer o filwyr clwyfedig yn dod i mewn, gan gynnwys Loyd ifanc o'r 60^{fed} Reiffwyr, a ddywedodd bod Nat (fy mrawd) gyda'r Ail Fataliwn wedi cipio 12 o gynnu mawr yr Almaenwyr, a bod Nat yn ddianaf.

Euthum ar ôl y frigâd. Maent mewn twll yn Chavonne, lle disgwylir gwrth-ymosodiad. Mae ein llety yn llawn eisoes.

Dydd Llun 14 Medi 1914

Mae'r cyrch wedi cychwyn i geisio cipio'r tir uchel ar lan ogleddol afon Aisne. Bu brwydro drwy'r dydd, roeddem wedi ennill tua dwy filltir o dir erbyn diwedd y dydd. Cyrhaedd Pagnan, gwelais Swafiaid y Ffrancwyr.

Roeddem gyda'r frigâd drwy'r dydd, gan fynd i wynebu'r gelyn ambell waith ger fferm Tourde Paissy, yng nghanol y gynnu mawr.

Anfonwyd Tiger a minnau i gadw mewn cysylltiad â'r Ffrancwyr, ym mhentref bach Varogne. Wrth wyllo ymosodiad petrus y Ffrancwyr, ymosododd yr Almaenwyr ar hyd y llinell, anfonwyd y Frigâd i Chavonne i amddiffyn man hollbwysig. Euthum ar eu hôl gan weld ffrwydryn mawr yn taro'r gynwyr. Roedd gan lawer o'r milwyr araf draed oer hefyd.

Roeddem yn aros am y gwrth-ymosodiad ond ni ddaeth, gan ein bod wrth gefn. Yna i Blasty Soupir dan linell orchuddiedig.

Cyrhaeddais yn hwyr, gan gael gorchymyn i ymuno â'r Sgwadron i baratoi am frwydr yn y nos. Noson hir iawn mewn tir agored y tu ôl i amddiffynfeydd.

Cwympais i lawr clawdd.

Yn ffodus ni ymosodwyd arnom, nid oes bidogau gennym.

Dydd Mawrth 15 Medi 1914

Daeth sôn fod yr Almaenwyr yn ymgilio wrth i'w gynnu danio, ond nid oedd hynny'n wir. Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddal gafael ar y tir a gipiwyd. Bu'r gynnu mawr yn tanio at ei gilydd tan iddi nosi.

Mae'r gatrawd uwchben Chavonne, mae Sgwadron B ac C yn y rheng flaen, gyda Sgwadron A wrth gefn. Ar ôl cael brechwast yng ngerddi'r plasty, tarwyd y plasty gan nifer o ffrwydron wrth i mi eillio.

Taniwyd ffrwydron atom drwy'r dydd, ond gan fod llethr serth bryn yn ein cuddio, ni laddwyd nac anafwyd neb.

Dychwelais i Soupir a chael bwyd yn y glaw, fodd bynnag, cysgais ar y bwrdd biliards yn yr ystafell fawr.

Dydd Mercher 16 Medi 1914

Yn Chavonne eto. Roeddwn yn hwyr, yn sgîl anghydfod â'r 11^{eg} gatrawd, felly roedd rhaid cymryd lle Sgwadron C.

Wrth aros am yr ymosodiad ger hen wagen, rwy'n gallu gweld yr Almaenwyr yn eu ffosydd o'm safle blaen. Roedd tanio parhaus, ac roeddwn yn falch iawn pan ddaeth Ail Frigâd y 4^{ydd} Dragwniaid i gymryd ein lle.

Euthum i Soupir, roedd yn safle ofnadwy, dim lle i danio ac mewn coedwig.

Roedd y Frigâd gyfan mewn lleoliad peryglus iawn, lle gwelais 4 o gynwyr ac 8 o geffylau'n cael eu lladd rai diwrnodau yn ôl.

Cefais stŵr am brotestio, ond dim ond mater o amser oedd hi yn fy marn i, felly eisteddais mewn ffos yn darllen papur.

Daeth ambell ffrwydryn drosodd, ac yn ffodus iawn caniatwyd i ni fynd ar gefn ein ceffylau.

Deng munud yn ddiweddarach, glaniodd ffrwydryn yn ein canol ni, ger Mic, gan ladd ceffyl a dynion, yna daeth mwy o danio a dryswch.

Daeth yr 11^{fed} Hwsariaid drwyddo, aeth y marchoglu cyntaf yn wyllt, gyda'r lleill yn dilyn hefyd. Lladdwyd dau ddyn ac anafwyd Hettlefold wrth chwarae cardiau yn agos i mi, gyda'r llwch i lawr fy nghefn. Roedd y ffrwydron yn rhai 250 pwys. Cefais lety yn O. Daeth llu wrth gefn i ymuno â ni, gan gynnwys Johnson.

Dydd Iau 17 Medi 1914

Daeth sôn am lawer o filwyr wedi'u lladd a'u hanafu, gan gynnwys Hogg o'r 4^{ydd} Hwsariaid ymhlith eraill.

Mae'n debyg bod 10,000 o filwyr Prydain wedi'u lladd neu eu hanafu, hyd yma.

Rydym yn cysgu yn ein llety, ar wellt cymaint â phosibl. Atgyweiriwyd y pontydd gan y Peirianwyr Brenhinol.

Mae'n debyg bod 600 o Almaenwyr a 200 o Saeson wedi'u lladd yn y man a elwir 'The Chimney'.

Dydd Gwener 18 Medi 1914

Diwrnod o orffwys. Gwelais ffrwydron yn glanio ar y cefn tua milltir i ffwrdd, a dyna'r cyfan.

Rydym yn falch o gael llonydd am ychydig.

Aeth Robinson a minnau i chwilio am fwyd, ac i alw yn y Plasty.

Roedd yr Almaenwyr wedi'i ddfrodi llwyr, gan chwalu popeth.

Dydd Sadwrn 19 Medi 1914

Ymdeithio o Ouilly cyn y wawr wrth iddi arllwys y glaw. Dim ond hanner awr o rybudd a gafwyd felly mae'n sicr ein bod wedi gadael pob math o bethau ar ein holau.

Sleifiais o amgylch gwely'r afon yn Soupir, yna taniwyd ffrwydrion atom. Yna i Chavonne, yn hwyr dros amddiffynfeydd y rheng flaen, gan gymryd lle'r 4^{ydd} Dragwniaid, sy'n amlwg yn falch o gael mynd oddi yno. Rydym mewn pant, gyda grisiau garw i fyny i'r man tanio. Mae sgwadron B yn y goedwig i'r dde. Lladdwyd 2 ohonynt, a saethwyd tri o Almaenwyr o bellter o 10 llath. Rydym yn palu ffosydd ac rydym yng nghanol brwydr rhwng y gynnu mawr drwy'r dydd. Roedd bwledi yn y ffordd, a tharwyd corporal. Daeth ymosodiad yr Almaenwyr ar gatrawd Wiltshire tuag atom, gyda 60 o ddynion yn dod tuag atom, ac yna'n ymgilio dan gawod o fwledi.

Dydd Sul 20 Medi 1914

Daeth yr 11^{eg} Hwsariaid yn gynnar i gymryd ein lle, ac rydym yn falch o adael gan ei fod yn safle gwael, ac roedd safle sgwadron B yn waeth fyth, gydag un wedi'i ladd ac un wedi'i anafu.

Er hynny, prin fu'r saethu at Sgwadron A, cefais noson gyfforddus iawn mewn twll gwlyb a balwyd gan y swyddogion. Buom wrthi'n gwella amddiffynfeydd mewnol y pentref drwy'r bore. Taniwyd llawer o ffrwydrion, a daeth ymosodiad ar yr amddiffynfeydd allanol gyda'r nos. Dim ond nifer fach o fwledi ddaeth atom, roeddwn ger fy seler.

Cysgais ym mwthyn cyn-filwr 70 oed a soniodd am waed ieir, saethu at filwyr clwyfedig ac ati.

Clywais sŵn cyrch yr Almaenwyr ar y bryn a'u bloeddio yn erbyn catrawd Wiltshire. Nid oedd y gynnu mawr yn tanio oherwydd carcharorion.

Dydd Llun 21 Medi 1914

Ein penwythnos hwyr. Euthum yn ôl 6 milltir i orffwys, gan gyrraedd yno heb gael fy ngalw yn ôl.

Sleifiwyd yn ôl ar hyd yr afon heibio i 'gornel y blwch glo', lan at ein cluniau mewn mwd, ond rydym yn ddiolchgar o ffoi o afael y ffrwydrion.

Yn y pendraw cyrhaeddais bentref tawel, nas difethwyd gan yr Almaenwyr. Cefais fwyd, papurau a chlywais fod Owen wedi mynd i'r rheng flaen, yn unol â'i broffwydoliaeth. Cefais gyfle i roi trefn ar fy offer, ymolchi a mwynhau gorffwys.

Dydd Mawrth 22 Medi 1914

Glaw fel arfer, ond ambell ysbaid heulog. Euthum gyda Peckham i Fismes mewn cert i geisio cael gwin.

Cefais un botel gan hen weithiwr yn y pendraw. Cafwyd cig a bara ffres hefyd.

Roedd y lle'n llawn milwyr Ffrengig, cerbydau ac ati.

Gwelais swyddogion amrywiol ar y ffordd i'r rheng flaen i lenwi bylchau.

Roedd sôn bod yr Almaenwyr yn ildio tir, cipiwyd rhai ffosydd lle roeddent yn llewygu, mae'n debyg eu bod wedi symud ymlaen yn rhy gyflym.

Ymosodwyd ar ddwy gatrawd o orllewin Swydd Efrog a Dyfnaint dan faner wen, eu brwydr gyntaf, gan ddioddef colledion trwm. Daeth yr Almaenwyr ymlaen gyda'u reiffiau i fyny, â'u gynnu peiriannol wedi'u cuddio. Cysgais yn y prynhawn.

23 Medi 1914

Deffrais am 6.30 gan deimlo'n egniol ac yn heini unwaith eto yn hytrach nag yn droetrwm a llygatgoch.

Heulwen llachar o'r diwedd a sŵn gynnu ymhellach i ffwrdd. Aeth Robbie a minnau ar ein ceffylau i Fismes. Wedi mwynhau gorffwys.

Mae clefyd enterig ar yr Almaenwyr. Byddwn yn cymryd rhagofalon yn erbyn hynny. Rwy'n ystyried cael fy mrechu, man y man gwneud. Dros ginio daeth gorchymyn i fod yn barod i ymdeithio am 3am o bosibl. Gwelais awyren yn ffrwydro gyda'r nos, a chlywais sut yr ymosodwyd ar gatrodau newydd Swydd Efrog a Dyfnaint dan faner wen. Symudodd yr Almaenwyr ymlaen fesul rheng, gyda'u reifflau uwch eu pennau a chyda'u gynnau peiriannol wedi'u cuddio. Daeth Broel â bwled 'Dum Dum' i mewn, cymerwyd 600 ohonynt o gar modur cadfridog Almaenaidd.

24 Medi 1914

Dal yma yn eistedd yn yr heulwen ar ôl brecwast yn teimlo'n iach ac wedi dadflino am unwaith.

Mae rhuo'r gynnau yn parhau o hyd.

Dyrchafwyd Winnie i fod yn gyrol, a dyna'r unig newyddion.

Rwy'n mwynhau bywyd tawel, cryn dipyn o drafod o ran p'un a fyddaf yn cael fy mrechu, penderfynais aros tan fod achosion o enterig yn digwydd.

25 Medi 1914

Ein diwrnod allan. Reveille am 1.

Yn ffodus dychwelodd Tiger yn ddiogel gan arwain y ffordd, neu fel arall mae'n debyg y buaswn wedi mynd tuag at rengoedd yr Almaenwyr yn y tywyllwch.

Siwrnai droellog drwy Villiers-Moulins i Paissy, gan osgoi ffrwydron, er i ni fynd drwy ardal a oedd wedi'i chael hi'n wael liw dydd.

Cedwais mewn cysylltiad â'r Tyrcos a chuddiais y sgwadron cyfan mewn ogofau, gan gynnwys myfi fy hun.

Bombardio trwm iawn, ond roeddem yn ddiogel o drwch blewyn.

Daeth darn o shrapnel drwy'r ffenestr gan lanio ar ein bwrdd brecwast.

Paratowyd ein cinio gan yr ysgolfeistres, dynes ymroddedig iawn.

Roedd hwn yn bentref prydferth iawn ers talwm yn y cyfnod cyn y rhyfel.

Euthum allan yn y nos gan osgoi'r ffrwydron, cyrhaeddodd pawb yn ddiogel ac yn hwyr.

26. Medi 1914

Roeddwn wedi meddwl y byddem yn cael gorffwys.

Nid felly y bu, daeth gorchymyn i fynd ar ein ceffylau ar ôl brecwast.

Wedyn yn tindroi drwy'r dydd gyda'm holl offer wedi'i bacio.

Roedd yr Almaenwyr wedi cynnal ymosodiad mawr ar Troyon yn y nos, ond ataliwyd yr ymosodiad.

Roedd y gynnau mawr yn tanio o hyd.

Cyrhaeddodd Boxer, gan gymryd rheolaeth ar y sgwadron.

27 Medi 1914

Roeddwn wedi meddwl y byddem yn cael gorffwys, nid felly y bu.

I Soupir unwaith eto ar ôl brecwast, gan fynd heibio i 'gornel y blwch glo' yn ddiogel.

Mae'n debyg nad yw'r si bod yr Almaenwyr yn ymgilio yn wir.

Glaniodd ffrwydron gerllaw, ond dim ond un oedd yn agos i ni.

Gwelais Winston Churchill mewn car modur.

Bu'n rhaid i mi rhoi'r gorau i ysgrifennu pan laniodd ffrwydryn, a daeth gorchymyn i fynd i'r llety.

Wrth i ni symud i ffwrdd, daw ffrwydron ar unwaith wrth i'r gatrawd flaen fynd i'r tir agored.

Darganfuwyd dau o deffonau'r gelyn yn Chavonne heddiw, ac mae mwy ohonynt yn ôl y dyn a ddaliwyd, sef ysbïwr o Alsás. Caiff yntau ei saethu.

Nid oes llety ar gael i ni yn St. Maud.

Mynd i fferm ar fryn ger rhai gynwyr, yn aros am fwyd.

Roedd y swyddogion yn cysgu yn y llofft, syrthiais o'r llawr cyntaf yn y tywyllwch, drwy lwc ymbalfalais ar hyd y wal, gan lanio ar bren yn hytrach na cherrig.

Cefais glais gwael ar fy nghlun yn unig, ond mae'n brifo cryn dipyn.

Cefais wely gan y gynwyr. Dyma ffordd wael i gael fy anafu, ond rwy'n ffodus nad wyf wedi cael anaf gwaeth.

28. Medi 1914

Taith arall mewn ambiwlans, 7 milltir ar fy nghefn, ar ôl 13 mlynedd.

Taith boenus dros ffordd arw y tu ôl i'r gatrawd i Blangy unwaith eto.

Rwy'n cael fy ngadael yn yr ystafell fwyta ar elor, gan gael gwely yn y pendraw. Rwyf yn gwbl ddiymadferth.

Roeddem wedi disgwyl symud ymlaen ddoe, ond nid felly y bu.

29. Medi 1914

Llwyddais i gropian i lawr am 11 o'r gloch. Mae'n debyg nad yw'r sefyllfa wedi newid, er i'r Almaenwyr wneud ambell ymosodiad petrus ddoe a ataliwyd yn rhwydd.

Dylai hyn fod yn beth da i ni, gan osgoi colledion trwm.

Daw sôn fod pob un o filwyr y 'Cameron Highlanders' wedi'u lladd gan ffrwydryn adeg brechwast.

Mae lluoedd Ffrainc wedi mynd benben â 4 corfflu Almaenaidd o Malines. Mae'n debyg bod eu milwyr gorau wedi'u hanfon i'r ffrynt Dwyreiniol. Eilbeth yw ein rhyfel ni am y tro. Daw sôn fod yr Almaenwyr yn palu ffosydd cadarn. Nid oes sôn y byddwn yn symud am y tro, felly gydag ychydig o lwc byddaf wedi gwella erbyn y daw'n bryd i'r Gatrawd symud.

30. Medi 1914

Daeth yr 11^{eg} Hwsariaid yma, gan fod oddeutu deugain o'r 9^{fed} Gwaywyr wedi'u lladd neu eu hanafu yn sgîl bombardiaid trwm yn Longuecoal.

Fe'u cadwyd yma drwy'r dydd gan De Lisle, gan wrthod rhoi caniatâd iddynt symud.

Mae'r lle hwn dan ei sang braidd. Darllenais y papurau newydd i weld a fydd diwedd ar y rhyfel, ac nid yw hynny'n debygol yn ôl y sôn, ond mae'n debyg bod y

Gyfnewidfa Stoc yn cynnig ods o 4-1 ar heddwch erbyn 1 Tachwedd. Mae arnaf ofn mai un o'r chwedlau gweigion arferol yw hyn.

Fawr ddim newid yma, mae'n bosibl bod byddin Ffrainc wedi ymosod yn llwyddiannus ar ystlys yr Ail gorfflu Almaenaidd. Mae'r papur yn rhestru ein milwyr a gollwyd ym mrwydr Aisne.

1 Hydref 1914

Mae fy nghoes yn well, ni allaf fynd yn bell eto, felly darllenais y papur a lluniais lythyrau

3 Hydref 1914

Rydym yn disgwyl symud, ond ni ddaw unrhyw orchymyn o'r fath. Treuliais y diwrnod yn darllen, yn trafod posibiladau ac yn clywed sion, megis bod y Cadfridog Von Kluck wedi'i amgylchynu gyda 40,000 o ddynion

4. Hydref 1914

Symudom yn y bore, gyda White a minnau yn yr ambiwlans. Aethpwyd â ni i'r lle anghywir, yna i lety brwnt a adawyd gan y gynwyr ger eglwys.

Daeth y dyn cyflenwadau i mewn, a chan nad wyf yn gallu cerdded, penderfynwyd yn sydyn i'm hanfon i Baris. Taith car modur i Fere ger y pencadlys, roedd rocedi'n goleuo'r nos.

Rhoddodd y meddygon fi ar y trêen i'r pencadlys.

Clywais sôn am frechiad Tetanws.

5. Hydref 1914

Aeth Kavanagh a minnau'n syth i'r Ritz, gan gael mynediad am ddim, gan ei fod newydd ail-agor.

Roedd gennym ystafelloedd moethus, baddon enfawr a'r holl foethbethau modern.

Cefais driniaeth gan dylinwr y gwesty, a'r barbwr.

Roeddwn yn teimlo fel dyn newydd ar ôl hynny.

Am dro o amgylch Paris, i Chatham Champs Elysée a the yn Café de la Paix, gan gwrdd â swyddogion Americanaidd a Ffrengig, ac wedi hynny ymlaen i Maxims, ymunodd Harvey o'r 9^{fed} Gwaywyr â ni, ac yna aethom i Moulin Rouge.

6 Hydref 1914

Brysur yn siopa, ffitio ar ôl Néry, cael triniaeth ar fy nannedd. Te yn Café de la Paix, cinio mawr yn Maxims gyda swyddogion amrywiol, Entente Cordiale a choesau brogaod

7 Hydref 1914

Allan yn gynnar i siopa, yn barod i symud am 11.

Dim siw na miw o gar na neges gan Foster, dyn yr ASC. Clywed bod y Gatrawd yn symud, a ddim yn gwybod sut y byddwn yn ailymuno â hwy.

Cinio ganol dydd yn Abbé. Er mawr syndod, ymddangosodd ef am 2pm. Rhaid i ni fynd at yr heddlu i gael pàs ac yna o amgylch Paris i gael petrol.

Taith wyllt yn y car drwy Subies ac ati, ac yn cyrraedd Rocroy.

Roedd dyn caredig iawn yno o'r enw Dickie, bydd e'n ein hanfon ni ymlaen yfory.

Llety cyfforddus

8 Hydref 1914

Aeth y car y tu ôl i reng flaen y frwydr am filltiroedd, gan ddod ar draws sgarmes ac ymwthiad yn y rheng yn Lassigny, ac yna allan â ni eto.

Te yn Compiègne, roedd y gynwyr yn esgyn i drêen. Croesi'r afon ac yn cwrdd â'r Frigâd ger Courmelle yn y pendraw.

Cawsant eu tynnu i mewn i ymwthiad yn rheng flaen y Ffrancod. Roeddent oriau'n hwyr ar eu hymdaith, ond ni fuont yn brwydro.

Euthum ymlaen yn y car gydag Osborne, roedd pawb wedi'u synnu o'm gweld i yn ôl mor fuan ac mor iach.

9 Hydref 1914

Llwydrew caled, mae dannedd pawb yn clecian. Ni wn sut y bydd hi yng Ngwlad Belg.

Cafwyd heulwen llachar wedyn, buom yn ymdeithio drwy'r dydd, gan orffwys am 1 awr yn Oube Villiers. Clywsom y gynnu'n bell i ffwrdd i gyfeiriad Arras. Rydym mewn rhan siriol o'r wlad nas effeithiwyd arni gan yr Almaenwyr.

Euthum o amgylch y pentref yn sefydlu rhagfinteioedd, trefnu llety ac ati.

Rwyf mewn hen adain iasol o'r tŷ, gosodais fy nghês ar y gwely.

10 Hydref 1914

Ymlaen â ni, bore oer a diwrnod braf. Ymdaith hir i lawr i ddyffryn tawel a diarffordd, a llety yn fferm gwraig marchfilwr.

Roedd tanio ffyrnig gerllaw, mae ein milwyr troed yn y cyffiniau. Gwelodd Patteson ei frawd.

Daeth y newyddion yn Cormelles fod Herbert Gilmour wedi'i ladd.

11 Hydref 1914

Fe'n galwyd am 4. Ymdaith oer ar ystlys dde'r fyddin, rydym yn gweithredu fel marchlu adrannol, er mawr anniddigrwydd i ni.

Fe'm hanfonwyd i Verguisinal i ddod o hyd i'r Ffrancod, ni ddeuthum o hyd iddynt, ond roedd llinell danio o'n blaen, ac ambell aelod o'r Peirianwyr Brenhinol yn palu ffosydd.

Bûm yn tindroi ar domen lo yn gwylio, am newid.

Ymddangosodd y milwyr traed yn ddiweddarach, ac ar ôl ymbalfalu yn y gwyll, deuthum o hyd i'r gatrawd.

Yn y pendraw rydym yn mynd i *chateau* mewn cae, sy'n llawn Ffrancod sy'n gorfod gadael yn y nos.

Collais fy ngwely a bu'n rhaid i mi gysgu yn yr ystafell ymolchi.

12 Hydref 1914

Bant â ni mewn niwl trwchus drwy Bethune, i le o'r enw Vieille Chapelle.

Mae'r Ffrancod wedi dal eu tir yno, mae'n amlwg bod y marchfilwyr a'r milwyr traed wedi cael amser gwael.

Euthum ar draws y ffrwd ddiadlam, fel petai, sef y bont a osodwyd fesul darn, gan gyrraedd y groesffordd yn fuan. Bron ar unwaith daethpwyd â Patteson yn ôl i mi yn gelain, roedd ei farwolaeth yn wers dactegol.

Buom yn ymladd ochr yn ochr â'r milwyr traed Ffrengig, sef y *chasseurs à pied*.

Daeth ein milwyr traed ni i'r rheng flaen, a daliwyd gafael ar ddinas y meirwon drwy'r dydd. Cawsom ein bomio'n drwm yn ôl y disgwyl, a chyda'r nos gadawsom y pentref megis Pantomeim Drury Lane, gyda'r muriau'n cwmpo a meindwr yr eglwys yn cwmpo ar fedd Patteson druan.

Bu'n rhaid i ni adael nifer o filwyr clwyfedig.

Cyrraedd llety ger Bethune o'r diwedd.

Roedd fy rhaw palu ffosydd yn ddefnyddiol iawn i greu lle o dan foncyffion, mae'n debyg iddi ein hachub ni.

13 Hydref 1914

Roeddem wrth ein bodd o orffen ein dyletswyddau fel Marchlu Adrannol.

Buom yn canlyn y frigâd ar ymdaith gyflym a braidd yn llafurus, ond roedd ein cyflenwadau y tu ôl i reng ymladd y Ffrancod. Aethom yn weddol agos ati, gan gynnwys sieliau.

Cawsom champagne wrth ymyl y ffordd. Roedd brwydr yn mynd rhagddi, rydym yn farchlu wrth gefn ar yr ystlys, roedd Adran y milwyr traed yn ymfyddino wrth i ni gyrraedd.

Cipiwyd Mont Noir, gyda 1000 o Almaenwyr a 200 o'n milwyr ni wedi'u lladd neu eu hanafu.

Cawsom lety ar fferm ger Rochonville a chyfle i sychu ar ôl y glaw trwm y buom yn eistedd ynddo. Cysgodd Tiger a minnau y tu ôl i'r linell danio, gyda'r gelyn gerllaw. Cawsom welyau, a bu merch y tŷ yn esbonio'r sefyllfa leol i ni. Er lladdwyd ac anafwyd rhai o filwyr y Frigâd, roedd hi'n ddiwrnod gwell na ddoe ar y cyfan.

14 Hydref 1914

Arllwys y glaw, ymlaen â ni. Newyddion drwg yn y papurau, ymddengys fod gwarchae mawr ar fin digwydd.

Clywais fod 6000 o fôr-filwyr yn Antwerp, a 2000 yn yr Iseldiroedd.

Aeth sgwadron A ymlaen i'r Frigâd.

Ein cyrch oedd cipio Dranouches o feddiant yr Wlaniaid. Drwy lwc aethant ar ffo wrth i ni ymosod ar y pentref o'r tu blaen.

Nid yw'r Ffleminiaid yma'n siarad fawr ddim Ffrangeg, mae hi'n wlad wahanol.

15 Hydref 1914

Codais yn gynnar ar ôl noson dda iawn mewn tŷ gwag. Diwrnod o orffwys a gafwyd yn y pendraw, er nad oeddem yn gwybod hynny i ddechrau.

Cyfarfûm â dau fôr-filwr a esboniodd y sefyllfa o ran y llynges. Roedd cadwyn o ffrwydron a llongau tanfor ar draws y Sianel.

Collwyd 2000 o fôr-filwyr yn Antwerp, bu'n rhaid mynd i'r Iseldiroedd.

Bydd gynnu peiriant newydd yr awyrennau yn mynd yn ôl i Plymouth. Mae'n debyg y bydd y rhyfel yn para drwy'r gaeaf, ond nid oes sicrwydd o hynny.

Yn ôl y broffwydoliaeth, dylai'r Kaiser farw heddiw.

16 Hydref 1914

Brigâd wrth gefn. Rydym yn gadael am 7.

Rwyf gydag esielon A, ni fydd ar flaen y gad yfory os byddwn yn brwydro.

Mynd i Leuve Eglise mewn niwl trwchus. Pacio ein trugareddau ac yn aros am newyddion mewn bwthyn bychan. Mae'r tŷ drws nesaf ar gau, dienyddiwyd y perchennog ac un o'i weithwyr gan yr Almaenwyr ddydd Sul diwethaf drwy eu saethu yn erbyn y wal.

Daeth newyddion fod dau gorfflu o fyddin yr Almaen yn dynesu o Bruges ac ar hyd yr arfordir. Rydym wedi symud ymlaen mor bell â sydd angen, neu'n bellach o bosibl.

17 Hydref 1914

Cychwyn am 6 ar flaen y gad, gyda gorchmynion i gipio glan yr afon y tro hwn, er mwyn cyrraedd coedwig fawr. Symudiad rhyfeddol yng nghanol y goedwig, yna'n eistedd i lawr gyda gynnu'n tanio ym mhob man.

Gorchmynnwyd symud y gynnu peiriant i flaen y gad, fi oedd yn bennaf gyfrifol gan fod Cousal yn sâl. Roedd hynny'n ddigrif i mi, er y saethwyd atom heb i ni gael saethu yn ôl.

Safle newydd mewn tas wair. Dinistriwyd un o'n gynnu, roedd yr 11^{eg} mewn safle ofnadwy ger rheilffordd y tu ôl i wrych gyferbyn â'r milwyr traed yn y ffosydd, a fu'n ymladd yn y nos.

Lladdwyd Lumly, anafwyd amryw filwyr eraill. Roedd ein gynwyr yn brysur, lladdwyd ac anafwyd rhai ohonynt.

Gwelais un o'n hawyrennau'n gweithio'n dda, gyda goleuadau ac ati.

Tybiais ein bod yn wynebu amser caled yn erbyn yr Almaenwyr.

Yn ystod y nos cawsom ein hachub, Duw a wŷr sut, wrth i lawer o filwyr traed gyrraedd, ac yn ôl â ni drwy'r tywyllwch, gydag ergydion olaf yn ein dilyn, i Drasoutre.

18 Hydref 1914

Aeth y Frigâd wrth gefn allan gyda'r wawr, gyda'r gynnu peiriant yn tanio o hyd.

Aethom i goedwig fawr ac eistedd yno drwy'r dydd. Prin iawn o ymladd a fu, ond roedd hi'n ddiwrnod ofnadwy gyda'r gynnu 60 pwys yn agos gerllaw.

Glaniodd ambell ffrwydryn, ond nid yn agos. Ymdaith lafurus ar ôl iddi dywyllu i fferm ger Romeraines. Cawsom champagne yno a guddiwyd o'r Almaenwyr.

19 Hydref 1914

Noson gyfforddus iawn ar fatras mewn llety newydd.

Gadawsom am 3 gyda gorchymyn i ymdeithio drwy'r nos i St Yves a chyrraedd gyda'r wawr a rhoi adroddiad i Brif Swyddog 4ydd Gwarchodlu'r Dragwniaid.

Llwyddais i ffeindio fy ffordd yno. Roedd ffermydd yn llosgi drwy'r rhan fwyaf o'r dydd, a ffrwydron yn glanio, ond ni ddaethant atom ni.

Cefais fraw wrth gyrraedd gan fod ymosodiad yn edrych yn debygol, ond nid felly y bu.

Nid yw'r sefyllfa'n edrych yn addawol iawn yn ôl y sôn, fel y tybiais.

Rwy'n disgwyl y byddwn yn palu ffosydd yma.

Roedd gynnu 5ed Gwarchodlu'r Dragwniaid gyda Holland yn meddiannu'r hen reng flaen, sy'n safle gwael na ellir ei ddal yn fy marn i.

Cysgais yn y dafarn, roedd ffrwydron yn glanio o'n cwmpas ac yn y goedwig, ond ni ddaethant atom ni. Euthum o amgylch y safleoedd gyda'r nos ar gefn beic.

20 Hydref 1914

Roeddem i fod i gael ein rhyddhau gyda'r wawr, ond drwy gamgymeriad daeth 2 sgwadron o'r 18^{fed} yn hwyr. Lladdwyd ac anafwyd rhai ohonynt oherwydd y camgymeriad hwnnw. Mae trympedwr gan sgwadron A. Tarwyd y rhengoedd ac nid oeddwn yn gallu gadael y ffosydd tan yn hwyr yn y dydd oherwydd tanio gan ynnau peiriant ac ati.

Dychwelyd i Bois de Ploegstrut o'r diwedd.

Bu bron i ffrwydryn fy nharo, glaniodd yng nghanol rhai o geffylau'r Pencadlys Adrannol. Roedd hi fel nyth cacwn y tu mewn. Glaniodd ffrwydron ar y lawnt a'r tŷ drwy'r dydd.

Gwrandewais ar sŵn y Magnelwyr Brenhinol a'r gynnu 60 pwys. Ar gefn fy ngheffyl ar frys gyda'r nos i gynorthwyo'r 2^{il} Frigâd a Goffy, er mai ni oedd Catrawd wrth gefn yr Adran.

Ar fryn 63, drwy'r niwl gwelais marchfilwyr ar hyd y ffordd gyda ffrwydron yn glanio y tu ôl iddynt ac yn eu canol.

Yn cael ein hanfon ar frys i Messines i'w hamddiffyn hyd y diwedd.

Chwilio am safleoedd gynnu peiriant yn y tywyllwch, gyda'r sgwadronau'n ceisio palu ffosydd y tu ôl i'r gwrthgloddiau gyda'r nos.

Cefais ginio gyda B mewn tŷ braf iawn, gan drafod y sefyllfa leol, sy'n anodd iawn.

Yn wir, nid oeddwn yn edrych ymlaen at yfory o gwbl.

Collodd y 18^{fed} wythdeg o ddynion ar ôl dod atom ni yn Le Ghies.

Collodd y 'Tins' lawer o ddynion hefyd. Daeth un o'u milwyr colledig heb ei arfau ataf yn Messimes.

Cysgais mewn gwely cyfforddus iawn. Mae dydd y farn wedi cyrraedd y ddinas hon.

21 Hydref 1914

Allan awr cyn y wawr, gan guddio ceffylau'r gynnuau peiriant mewn bragdy. Anfonwyd ceffylau eraill y gatrawd yn ôl i safle cymharol ddiogel ymhell y tu ôl i'r rheng flaen.

Euthum allan i ddod o hyd i leoliadau ffosydd gyda'r wawr.

Symudodd sgwadron A 4 gwaith cyn dod o hyd i safle.

Daeth yr Wlaniaid yn gynnar, ond nid oedd yn hawdd tanio atynt drwy'r niwl.

Drwy lwc roeddem wedi gallu palu ffosydd cyn i'r bomio go iawn ddechrau. Yna dechreuodd y gelyn danio at y ddinas. Daeth cannoedd o ffrwydron yn ystod y dydd, gan ffrwydro ym mhob man a chwalu popeth.

Roedd hi waethaf yn ystod yr awr cyn iddi nosi. Daethom o hyd i seler. Tarwyd ein tŷ gan ffrwydryn. Chwalwyd y tŷ yr oedd Johnson ynddo, ond roedd ef o dan ddaear.

Cefais ddihangfa lwcus wrth fynd o wn i wn.

Dim ond 6 o filwyr y gatrawd a anafwyd erbyn diwedd y dydd, ond bu'n ddiwrnod anodd iawn.

Cefais ginio da, ac yn y nos daeth hanner Brigâd o filwyr traed i'n hatgyfnerthu.

Dyna ddiwedd diwrnod gwael iawn, ond roeddwn wedi meddwl y byddai'n waeth o lawer.

Clywsom fod yr Almaenwyr wedi cipio Le Ghies. Gwnaethom ei hailgipio, gan achub ein carcharorion ni, a oedd wedi eu dal tra roeddent yn cysgu, a daliwyd 300 o Almaenwyr!

Cawsom ein rhyddhau gan filwyr traed yn hwyr yn y nos, ac yna i'r gwely. Bu'n rhaid i'r gynnuau aildechrau am 2am.

22 Hydref 1914

Cryn dipyn o danio cyn y wawr, yn ddiau roedd yr ymosodiad go iawn ymhellach i'r De.

Gwisgais amdanaf ar frys a mynd i'r gynnuau peiriant. Yn anffodus tarwyd yr Is-gyrnol Spendly yn ei geg.

Fe'i darwyd wrth symud ar draws y ffenest. Yr unig ergyd a ddaeth drwy'r ffenest.

Prin oedd y bomio i ddechrau, bu Kavanagh a minnau'n chwilota drwy'r lleiandy gwag. Bu bron i mi gael fy nharo gan ffrwydryn wrth gerdded yn yr ardd.

Gyda map graddfa fawr deuthum o hyd i brif swyddog y gynwyr a bu bron i mi gael fy nharo gan ffrwydryn arall. Yna ar ôl cinio bu'n rhaid ffoi i'r seler i osgoi'r ffrwydron.

Rwyf nawr yn ysgrifennu yn y seler, yn aros am ddyddiau gwell!

??

Roeddwn wedi rhybuddio Black ynghylch safle sgwadron A. Gwrthododd symud, a glaniodd ffrwydryn yn eu canol, gan ladd Rich ac anafu Black a 15 o filwyr eraill.

Felly fi yw prif swyddog y sgwadron eto, ac mae'n ddrwg gennyf am hynny mewn ffordd gan fod Archie a Bouverie wedi'u taro'n sâl. Mae'r 'Tins' wedi dioddef colledion trwm.

24 Hydref 1914

Lindenhoch

Difethwyd ein diwrnod o orffwys gan awyrennwr a ddywedodd fod corfflu o farchfilwyr yn ymdeithio tuag atom.

Aethom ar gefn ein ceffylau, ac yna i ffwrdd â ni.
Roedd pob math o sion ar led am fuddugoliaeth fawr i Rwsia, fod yr Eidal wedi ymuno â'r rhyfel, Haigh, llwyddiant mawr yn y gogledd ac ati ac ati.

25 Hydref 1914

Ymdeithio allan yn y tywyllwch fel arfer yn ôl i Messines. Rydym wrth gefn ger melin wynt, ac yn palu ffosydd. Cesglais offer o bob man, rwy'n siŵr mai dyma un o wersi pwysig y rhyfel.

Llety yn y dref ar ôl iddi nosi, dim ond ychydig o ffrwydron, rwyf mewn tŷ mawr gyferbyn â lleiandy.

26 Hydref 1914

Ar ddyletswydd gyda Sgwadron A ac yn rhyddhau'r 11^{eg} Hwsariaid cyn y wawr. Mae'n rhaid eu bod wedi cael amser gwael iawn dros nos wrth iddi arllwys y glaw, gan eistedd mewn ffos ddiflas sy'n hanner llawn dŵr.

Rydw i mewn rhyw fath o ogof fach.

Saethais at Wlaniaid amrywiol, yna newidiodd y sefyllfa yn gyflym iawn, fel arfer.

Mae ymosodiad mawr o'r tu blaen ar y gweill, tynnwyd yr holl filwyr traed yn ôl, mae'r marchfilwyr yn gyfrifol am linell hir iawn. Roeddwn mewn ffos ger lleiandy.

Mae'r lleiandy a'r eglwys ar dân, felly rwy'n gynnes yn y nos, bron yn rhy gynnes.

Mae'r 2^{il} Frigâd wedi mynd. Yn gallu clywed brwydr fawr.

27 Hydref 1914

Mae Sgwadron A yn y ffosydd cynorthwyol. Rwy'n mynd o amgylch y safleoedd cyn y wawr, yn dod o hyd i Spurrier, yn gweld Blackburn ac yn dychwelyd wrth i'r tanio ddechrau, er nad oes fawr ohono.

Yn y ffosydd yn y glaw am ran o'r amser, ac yn cael ein rhyddhau gan y Connaughts gyda'r nos. Y dryswch arferol.

28 Hydref 1914

Noson gyffyrddus iawn a chyfle i dynnu fy esgidiau, yn y tŷ lle gwelais y signalau. Ar ôl brecwast cawsom gyfle i fynd yn ôl i weld ein ceffylau, eu trin, eu golchi a'u marchogaeth. Yn carlamu o amgylch maes wedi'i amgylchynu gan goed, yn cadw llygad barcud am awyrennau. Peth felly yw ein bywyd ar hyn o bryd.

Yn symud fy Sgwadron i fferm fach gerllaw gan fod y lle hwn yn orlawn ac yn fôr o fwd.

Yna yn ôl i'n hen safle ger y felin wynt, gan weld tanio at awyrennau amrywiol.

Nid yw'r newyddion yn galonogol iawn heddiw, mae ymladd ffyrnig iawn ar ein chwith ac rydym yn dal ein tir, yn dychwelyd yn dawel i Messines ac yn gyfrifol am y llinell allanol, a ddaliwyd gan sgwadron C, gan ryddhau'r Connaughts.

Noson oer iawn gyda llwydrew.

Rwyf ar ochr chwith y llinell gyda mintai 11.

Yn mynd allan i wynebu'r ymosodiad ddwywaith, ond dim ond ambell i ergyd.

Nid yw ein gorchmynion wedi newid, sef i ddal ein tir tan y diwedd, felly mae'n syml.

29 Hydref 1914

Mae brwydr fawr yn digwydd i'n chwith. Dim ond y canonau y gellir eu clywed i ddechrau, ond erbyn 12 gellir clywed reifflau a gynnu peiriant. Ymddengys fod y frwydr yn dod tuag atom. Rwy'n gorwedd yn y ffos oer yn darllen y papurau, yn

meddwl am ddyddiau gwell. Mae dyn yn wynebu ei dranc bob awr o'r dydd a'r nos.
Daw sôn efallai na fyddwn yn cael ein rhyddhau heno.
Diwrnod gaeafol ydyw, ac mae fy nhraed yn oer.
Mae gwahaniaeth mawr rhwng disgwyliadau marchfilwr o ryfel â'r sefyllfa
wirioneddol.
Rwy'n cael fy rhyddhau gan Reifflwyr Wild gyda'r nos ar ôl llawer o ffwdan, roedd y
milwyr yn cynnwys Pathaniaid a Siciaid.
Roedd mynd i mewn ac allan o'r ffosydd yn dipyn o ffars yn y glaw a'r tywyllwch,
gallai wedi bod yn wahanol, gyda pheswch Currans er enghraifft.
Mae'r Affridiaid yn mynd i hela Almaenwyr yn y goedwig.
Rwy'n cael llety cyfforddus i gysgu ynddo, a llythyr gan Vide, a newyddion da am
Haigh.